


Adnodd yn seiliedig ar bwnc

Lleihau Gwasttraff

Cyfnod Allweddol 2 (Lefel Uwch)



cadwch keep
gymru'n wales
daclus tidi

Gwybodaeth gefndirol

Nod Cymru yw bod yn Genedl Ddiwastraff erbyn 2050. Mae gwaredu gwastraff mewn safleoedd tirlenwi yn cynhyrchu nwyon tŷ gwydr niweidiol megis y nwy tŷ gwydr, methan, sy'n cyfrannu at gynhesu byd-eang. Mae adnoddau yn cael eu gwastraffu yn hytrach na'u hailddefnyddio neu eu hailgylchu ac mae lle mewn safleoedd tirlenwi yn brin.

Mae Cymru yn arwain y byd o ran ailgylchu gwastraff cartrefi, ar hyn o bryd rydym yn drydydd gorau yn y byd. Mae targed wedi cael ei osod gan Lywodraeth Cymru i ailgylchu 70 y cant o wastraff yng Nghymru erbyn 2025. Mae ailgylchu yn atal sbwriel rhag cael ei anfon i safleoedd tirlenwi, gan arbed miliynau o dunelli o allyriadau carbon y flwyddyn. Mae technolegau newydd yn cael eu defnyddio i adfer yr ynni o wastraff i ddarparu gwres a thrydan. Y camau nesaf yw cyflawni statws diwastraff yn cynnwys creu economi gylchol lle caiff adnoddau eu defnyddio am gyfnod mor hir ag sy'n bosibl, eu hatgyweirio neu eu hail-bwrpasu cyn cael eu hailgylchu ac ailgylchu 100% heb wastraff.



Safbwynt hinsawdd

Yn 2015, cytunodd y Cenhedloedd Unedig ar 17 Nod Datblygu Cynaliadwy ar gyfer 2015-2030 i fynd i'r afael â heriau byd-eang presennol, mae'r rhain yn cynnwys cynefinoedd cynaliadwy ac ynni. Mae byw'n gynaliadwy, rheoli gwastraff a defnydd cyfrifol yn ffyrdd y gall pawb ohonom weithio tuag at leihau allyriadau carbon ac arafu cynhesu byd-eang yn ogystal â gwella ein hamgylchoedd lleol. Pan ydym yn cymryd camau i wella llesiant cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol Cymru, mae'n rhaid i ni hefyd ystyried yr effeithiau y gall ein penderfyniadau a gweithredoedd eu cael ar weddill y byd.

Gall ystyried yr ynni ac adnoddau sydd eu hangen i ddiwallu ein holl anghenion beunyddiol yn cynnwys bwyd, dŵr, tanwydd, dillad a lloches chwarae rhan bwysig yn lleihau gwastraff. Wrth i ni gymryd cyfrifoldeb am ein defnydd ac arferion, gall y dewisiadau a wnawn a'n gweithredoedd unigol ymddangos yn fach yn wyneb yr her fyd-eang newid yn yr hinsawdd, ond pan fydd pawb ohonom yn cymryd camau cadarnhaol, bydd y pethau bach yn cyfrannu at wneud gwahaniaeth mawr.

Abwydfa

Cyfnod Allweddol 2 (Lefel Uwch)

Creu eich abwydfa eich hun

Mae mwydod (pryfed genwair) yn chwarae rôl bwysig yn cadw ein pridd yn iach ac yn arbenigwyr ar ailgylchu gwastraff yn faetholion! Maent hefyd yn gwella strwythur y pridd a all helpu gyda draenio i atal llifogydd. Bydd y gweithgaredd hwn yn helpu'r plant i ddeall sut y gellir ailgylchu deunydd organig a gwastraff bwyd a'u defnyddio i gyfoethogi pridd i dyfu planhigion newydd iach. Gallai plant weithio mewn paruau i greu abwydfa maint potel neu grwpiau i greu maint mwy.

Deunyddiau sydd eu hangen:

- Potel blastig wag neu gynhwysydd dwfn gyda chaead eang
- Cerdyn neu ddeunydd lliw tywyll i ffitio o amgylch y botel neu'r cynhwysydd
- Sgiwer neu ddril llaw, sisyrnau
- Pridd neu gompost heb fawn
- Tywod
- Mwydod (Pryfed genwair)
- 'Sbarion' ffrwythau a llysiau (e.e. croen, dail salad etc, osgowch nionod a ffrwythau sitrws)



Cam 1

Ewch ar helpa mwydod (pryfed genwair) i ddod o hyd i rai ar gyfer pob potel neu gynhwysydd. Edrychwch o dan foncyffion, cerrig, potiau blodau a dail, tyllwch y ddaear neu rhowch gynnig ar ddenu'r mwydod (pryfed genwair) i ddod i arwyneb y ddaear! Cofiwch afael yn y mwydod (pryfed genwair) gyda gofal. Cadwch nhw mewn lle oer, tywyll tra'r ydych yn creu eich abwydfa.



Gallech ddenu'r mwydod (pryfed) drwy neidio i fyny ac i lawr neu ddawnsio yn yr un ardal am rai munudau, socian ardal o'r ddaear gyda dŵr neu siglo dannedd fforch arddio yn ôl ac ymlaen yn y ddaear am rai munudau! Pam na wnewch chi roi cynnig ar y cyfan rhwng eich grwpiau a gweld pa un yw'r mwyaf llwyddiannus!

Cam 2



Torrwch o amgylch y botel oddeutu $\frac{1}{4}$ o'r top i ffurfio caead. Efallai y bydd angen i oedolyn ddechrau'r broses drwy wneud twll yn ochr y botel gyda sgiwer neu ddril llaw.

Cam 3

Llenwch y cynhwysydd â haenau o dywod a phridd bob yn ail. Chwistrellwch bob haen gyda dŵr hyd nes eu bod yn wlyb cyn ychwanegu'r nesaf. Cadwch yr haenau'n rhydd, peidiwch â phwyo i lawr. Gorfennwch gyda haen o bridd ar y top.



Cam 4



Gosodwch rai mwydod (pryfed genwair) yn y pridd ar dop y cynhwysydd a gwylwch wrth iddynt durio i lawr i mewn i'r pridd oddi wrth y golau. Gosodwch haen o sbarion bwyd ar arwyneb y pridd ar y top. Gallai pob grŵp ddefnyddio math gwahanol o fwyd i weld pa un mae'r mwydod (pryfed genwair) yn ei ffafrio.

Cam 5



Lapiwch y cerdyn o amgylch y tu allan i'r cynhwysydd i atal y golau. Rhowch y caead/top ymlaen, gan wneud yn siŵr bod tyllau ar gyfer awyru. Gadewch yr abwydfa am rai dyddiau, gan dynnu'r cerdyn i arsylwi a gwneud yn siŵr bod y pridd yn dal yn wlyb a bod gan y mwydod (pryfed genwair) fwyd.

Cam 6

Ewch â'r mwydod (pryfed genwair) yn ôl i'r ardd.

Cysylltiadau â'r Cwricwlwm

Meysydd Dysgu a Phrofiad - Y Dyniaethau

Datganiad o'r hyn sy'n bwysig:

Mae ein byd naturiol yn amrywiol a deinamig, wedi'i ddylanwadu gan brosesau a gweithredoedd dynol

Mae dinasyddion gwybodus, hunanymwybodol yn mynd i'r afael â'r heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu dynoliaeth, ac yn gallu cymryd camau ystyrlon ac egwyddorol

Meysydd Dysgu a Phrofiad - Gwyddoniaeth a Thechnoleg

Datganiad o'r hyn sy'n bwysig:

Mae bod yn chwilfrydig a chwilio am atebion yn hanfodol i ddeall a rhagfynegi ffenomenau

Mae'r byd o'n cwmpas yn llawn pethau byw sy'n dibynnu ar ei gilydd i oroesi

Camau nesaf a syniadau eraill

- Dysgwch fwy am fwydod (bryfed genwair) a chrëwch bamffled gwybodaeth
- Ymchwiliwch i'r 'wyddoniaeth' y tu ôl i ddenu mwydod (pryfed genwair)
- Sefydlwch fin compost a/neu abwydfa ar dir eich ysgol
- Lluniwch gân a dawns ar gyfer denu mwydod (pryfed genwair), neu gerdd yn dweud wrth eraill pa mor bwysig yw mwydod (pryfed genwair)
- Crëwch ardal i drychfilod ar dir eich ysgol
- Edrychwch ar sut ydych yn bwydo'r planhigion a delio â chwyn ar dir eich ysgol - a yw'n gyfeillgar i fwydod (bryfed genwair)?
- Dysgwch fwy am gadwyni bwyd a pha anifeiliaid eraill sy'n bwyta mwydod (pryfed genwair)

Gwefannau defnyddiol

<https://www.soilassociation.org/causes-campaigns/save-our-soil/meet-the-unsung-heroes-looking-after-our-soil/why-are-worms-important/>

<https://www.farmingismagic.co.uk/it-works/explaining-earthworms/>

<https://walesrecycles.org.uk>

<https://wrap.org.uk>



cadwch keep
gymru'n wales
daclus tidy

33-35 Heol yr Eglwys Gadeiriol, Caerdydd, CF11 9HB | 33-35 Cathedral Rd, Cardiff, CF11 9HB
029 2025 6767 keepwalestidy.cymru info@keepwalestidy.cymru

Mae Cadwch Gymru'n Daclus yn gwmni cyfyngedig drwy warant. Rhif Cofrestru'r Cwmni: 4011164 Rhif Cofrestru'r Elusen: 1082058 Rhif Cofrestru TAW: 850 3958 13
Keep Wales Tidy is a Company Limited by Guarantee. Company Registration Number: 4011164 Charity Registration Number: 1082058 VAT Registration Number: 850 395 8 13

